Circles Network
building inclusive communities
Academy for Inspiring Inclusion

Ty Menter, 14, 127, Stryd Bute, Bae Caerdydd, Caerdydd CF10 5LE
Tel: 01654 710267 Fax: 01788 816672
Email: norma.mccarten@circlesnetwork.org.uk
www.circlesnetwork.org.uk

Mwy o ddewis a rheolaeth i bobl yng Ngheredigion

Mae Rheolwyr Comisiynu yng Ngheredigion angen gwybodaeth am gynllunio strategol i alluogi oedolion sydd ag anawsterau dysgu i fyw bywydau cynhyrchiol annibynnol. Mae angen newid sylweddol yn ein ffordd o feddwl er mwyn cael gwybodaeth o'r fath gan bobl sydd â phrofiad byw o wahaniaeth.

Defnyddio Cynllunio yn Canoli ar y Person ac Ymagwedd yn Canoli ar y Person yw'r ffordd ymlaen. Mae cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r porth ar gyfer Gwasanaethau Annibyniaeth â Chymorth i gynnal prosiect creadigol a fydd yn dodi Cynllunio yn Canoli ar y Person yng nghraidd gwasanaethau.

Dylai pob person o wahaniaeth fod â Chynllun yn Canoli ar y Person ond byddir yn cysylltu â grup blaenoriaeth o tua 50-60 o unigolion sy'n byw gyda gofalwyr neu rieni hun i glywed eu breuddwydion ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gwrando ar anghenion pobl am annedd yn y dyfodol a sut i wella mynediad i Ofal Iechyd Sylfaenol er enghraifft. Bydd defnyddio Ymagwedd yn Canoli ar y Person fel sail i adroddiadau rheolaeth ar y camau gweithredu gofynnol a'r canlyniadau angenrheidiol yn sicrhau y gall anghenion unigolion gael eu crynhoi yn gynllun gweithredu.

Comisiynwyd Rhwydwaith Cylchoedd gan Gwasanaethau Annibyniaeth â Chymorth i gynnal y prosiect - gan weithio gyda'r staff ymroddedig yn y Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu, Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen, Gwasanaethau Dydd a'r Sector Gwirfoddol.

Daeth staff gwirfoddol o bob rhan o'r sector gofal yn grup o unigolion mewn lleoliad strategol a hyfforddwyd fel Hwyluswyr Cynllunio yn Canoli ar y Person.

Cafodd Hwyluswyr Cynllunio Canoli ar y Person o Gwasanaethau Dydd, Mencap; Tai Prospect; Cartrefi Cymru; Clwb Porth; Pobl yn Gyntaf Ceredigion; Cymdeithas Rhieni a Gofalwyr Ceredigion a Workstep eu hyfforddi a'u cefnogi i symud Cynllunio yn Canoli ar y Person i galon gwasanaethau Ceredigion.

Rhoddir offer TG a recordio i'r hyfforddwyr newydd yn ogystal â llyfrgell o lyfrau, fideos a deunyddiau lliwgar i gynhyrchu arddangosiadau synhwyraidd, cyffyrddol neu weledol o ddoniau a breuddwydion pobl.

Mae Rhwydwaith Cylchedd yn datblygu adnoddau yng Ngheredigion eleni, gan sicrhau fod gan y bobl sydd eu heisiau neu i weithio gyda Chynllunio Canoli ar y Person y deunyddiau a'r gefnogaeth i wneud hynny.

Bydd Hwyluswyr Cynllunio yn Canoli ar y Person Ceredigion eisiau gosod amserlen i'w gwneud yn bosibl i gyflawni eu gwaith. Cynhwyswyd ymrwymiad gan wasanaethau a darparwyr cymorth a gomisiynwyd mewn cytundeb tair ochrog rhwng Gwasanaethau Anabledd Dysgu, darparwyr gwasanaeth a'r staff hynny a 'secondiwyd' i ddod yn hwyluswyr Cynllunio yn Canoli ar y Person. Bydd y cytundeb hwn yn sicrhau y gall yr hwyluswyr hynny wneud eu gwaith gydag unigolion a staff eraill yn nhermau amser a chyfleusterau.

Gall hwyluswyr Cylchoedd Ceredigion weithio ar osod eu hamserlen a gweinyddu eu cofnodion drwy Rwydwaith Cylchoedd, a hwylusir gan hyfforddydd/cydlynydd profiadol.

Bydd Hwyluswyr Ceredigion yn gweithio gydag ac fel rhan o'r rhwydwaith cefnogol newydd hon sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda Rhwydwaith Cylchoedd.

Medrir trefnu a blaenoriaethu trefniadau atgyfeirio ar gyfer Cynlluniau yn Canoli ar y Person neu hyfforddiant staff drwy gysylltu â Norma McCarten, Cydlynydd Rhwydwaith Cylchoedd, ar neu norma.mccarten@circlesnetwork.org.uk.

Gall hwyluswyr Cylchoedd weithio gyda Rheolwyr Gofal ac eraill ar hyn a sefydlu a chynnal cofnodion hyfforddiant.

'O fewn ein breuddwydion a'n dyheadau canfyddwn ein cyfleoedd'

Norma McCarten
Hyfforddydd / Datblygu Dysgu Cynllunio yn Canoli ar y Person Cymru